

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 14eg Fai 2019

Presennol- Gareth Wynne Cadeirydd, Neil Pringle, Dyfed Jones. Siân Godbert, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriad -- Cyng. Elisabeth Roberts, Gwawr Jones, Nick Corney, Marion Bettenev, Janet Charlton.

Datgan diddordeb – Dim datganiad o ddiddordeb

[1] Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd

Penderfynwyd gohirio'r mater hyd nes y cyfarfod nesaf.

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 8fed Ebrill 2019.

Materion yn codi

(1.1) Yr Heddlu

Cyfeiriodd y clercc at y canlynol a dderbyniwyd gan SCHG Jonathan Thomas :

[a] 8 achos perthnasol i'r briffordd.

[b] 5 achos o ddigwyddiad ar y ffordd

[c] 4 achos o ymddwyn yn wrth gymdeithasol

[d] 1 digwyddiad anifail / bywyd gwyllt.

[1.2] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair.

Dyweddodd y clercc ei fod wedi anfon at berchennog glan yr afon gyferbyn a'r maes parcio ond nad oedd wedi derbyn ateb hyd yn hyn.

[1.3] Rheolaeth Cae Llan

Penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

[1.4] Colofn Golau Ffordd yr Orsaf

Nodwyd fod Edward Jones APCE yn trefnu i gwrdd gyda'r trydanwr i geisio penderfynu a fyddai'n bosib cael cyflenwad trydan o leoliad cyfagos ar gyfer y golofn lle'r oedd y diffyg.

[1.5] Siop Ultimate Outdoors

Croesawyd y wybodaeth fod y siop o'r diwedd wedi ei thacluso

[1.6] Adnewyddu'r Gamfa Dro / Rhaeadr Ewynnol

Dyweddodd y clercc, yn dilyn trafodaeth gyda Strobe Security, fod y gwaith o adnewyddu'r gamfa dro wedi ei ohirio hyd nes mis Hydref.

[1.7] Goleuadau Nadolig

Y clercc i gysylltu gyda Blachere Illuminations i drefnu ymweliad a'r pentref.

[1.8] Llogi'r Neuadd ar gyfer Ffair Grefftau

Cyfeiriodd y clerc at gais i logi'r neuadd gan Mr Gerry Barton. Y clerc i anfon gair fod y Cyngor ar hyn o bryd yn adolygu'r polisi ynglŷn â ffair grefftau, ond fod un dyddiad ar gael yn y cyfamser.

Y brif Agenda

[1.9] Materion Cynllunio

Codi Sied Unllawr, gosod giât diogelwch a.y.b Swyddfa'r Warden, Y Stablau, Ffordd yr Orsaf, Betws-y-Coed

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod

[2] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Ebrill 2019

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Ebrill 2019.

[2.1] Ffilm/Warner Bros

Cyfeiriodd y clerc at gais am ganiatâd i wneud ffilm yn y Rhaeadr Ewynnol. Y clerc i geisio mwy o wybodaeth.

[2.2] Datblygu Cae Llan

Penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

[2.3] Cynllun Ceir Cymunedol

Deallwyd gan y Cyng Neil Pringle fod cynllun ar y gweill i geisio gwirfoddolwyr ar gyfer ceir cymunedol i ddsbarthu prescriptions a.y.b. Bydd mwy o wybodaeth ar gael ymhen ychydig.

[2.4] Gorchymyn Gwarchod Coed

Nodwyd for y Gorchymyn Gwarchod Coed ar gyfer yr afon Llugwy a fferm y Royal Oak wedi ei gadarnhau.

[2.5] Mr Michael Hatch Bryn Afon

Nodwyd ateb gan Mr Hatch i sylwadau'r Cyngor ynglŷn â llosgi tanwydd a.y.b.

Cadeirydd_____